# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Kate Thomas

### CAFCASS Cymru

Rwy'n arwain ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer CAFCASS Cymru. Sefydliad ydyn ni sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu amser heriol ac rydyn ni'n cyfathrebu'n uniongyrchol gyda rhieni a phlant o bob oedran.

Eleni, cynhalion ni dri digwyddiad i'n staff a oedd yn canolbwyntio ar wahanol faterion anabledd oedd yn cynnwys sesiynau hyfforddiant gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gan godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar draws y sefydliad. Mynychodd Frances Rees bob un o'r tri digwyddiad i ni, a gosododd yr wybodaeth gyda'r naws berffaith, gyda chyfuniad o gyflwyniadau PwerBwynt, ffilmiau byr a thrafodaethau fel bod pawb yn gallu cymryd llawer o'r wybodaeth i mewn a hynny mewn ffordd hygyrch dros ben. Roedden nhw'n teimlo'u bod yn gallu gofyn cwestiynau a myfyrio am yr hyn roedden nhw'n ei ddysgu.

Gadawodd ein hymarferwyr gyda dealltwriaeth well o'r diagnosis ac yn gallu adnabod yr arwyddion a'r symptomau gyda gwell gallu i uniaethau gyda sut brofiad yw hi i berson gydag awtistiaeth tra hefyd yn cydnabod yr ystod helaeth o amrywiaeth o fewn awtistiaeth ei hun.

Bydd y ffaith bod y sesiynau hyn wedi'u cynnal yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu gyda defnyddwyr ein gwasanaeth ac mae wedi rhoi eglurder i ni ynghylch sut i sicrhau bod ein hadeiladau a'n harferion yn fwy cynhwysol.

Roedd yr adborth a gafwyd gan bob ymarferydd a fynychodd mor gadarnhaol am yr hyn ddysgon nhw yn y sesiynau hynny. Galla i argymell yn gryf y dylai unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phobl wahodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddod i'w annerch er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a hyder staff am awtistiaeth.